PRITCHARD, EVAN ('Ieuan Lleyn'; 1769 - 1832), bardd

Enw: Evan Pritchard
Ffugenw: Ieuan Lleyn
Dyddiad geni: 1769
Dyddiad marw: 1832
Priod: Mary Pritchard (née Roberts)
Rhiant: Mary Thomas (née Charles)
Rhiant: Richard Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Thomas Parry

Digwydd ei enw weithiau fel Evan Richards, a'i enw barddol fel ' Ieuan ap Rhisiart,' ' Ifan Lleyn,' a ' Bardd Bryncroes.' Mab ydoedd i Richard Thomas, saer maen, a Mary Charles, merch Charles Mark, T -mawr, Bryncroes, un o bregethwyr cynnar y Methodistiaid yn Ll n. Yr oedd ei fam yn brydyddes bur nodedig. Tua 1795 ymfudodd ei rieni i America, a chymerth Ieuan ei gartref gyda'i daid yn Nh -mawr, ac ar ôl ei farw ef, ym Mai 1795, gyda'i ewythr Lewis Charles, yn yr un lle. Yn y cyfnod hwn bu'n athro ysgol yn Llanddeiniolen.

Yn 1800 aeth i Loegr yn swyddog tollau. Dychwelodd i Gymru tua 1812. Yn 1816 priododd Mary Roberts, Hen-d , Bryncroes, a bu iddynt ddau fab a merch. Ar ôl dychwelyd i L n bu'n cadw ysgol ym mhlwyf Bryncroes a'r plwyfi cyfagos hyd ei farwolaeth, 14 Awst 1832.

Cystadleuodd droeon yn eisteddfodau'r cyfnod, e.e. yn Ninbych yn 1792 ar ' Cyflafan y Beirdd,' yn y Bala yn 1793 ar ' Tymhorau'r Flwyddyn ' ac yn Ninbych yn 1828 ar ' Gwledd Belsassar.' Ar 16 Hydref 1799 urddwyd ef a ' Dafydd Ddu Eryri ' a ' Gutyn Peris ' yn feirdd Cadair Gwynedd gan ' Iolo Morganwg ' pan oedd y g r hwnnw ar ei daith ym Môn ac Arfon. Yn Ionawr 1800 ymddangosodd y rhifyn cyntaf o gylchgrawn a elwid *Greal neu Eurgrawn*, wedi ei argraffu a'i gyhoeddi yng Nghaernarfon. Ar ei ddechrau ceir cywydd annerch gan ' Dafydd Ddu Eryri ' a rhagymadrodd gan ' Ieuan Lleyn,' a diau mai'r ddau hyn oedd y golygyddion, er na ddywedir hynny'n bendant. Nid ymddangosodd ond un rhifyn o'r cylchgrawn, ac y mae'n debyg mai'r rheswm am hynny oedd i Ieuan fynd i Loegr yn fuan wedyn. Cyhoeddwyd *Caniadau Ieuan Lleyn* ym Mhwllheli yn 1878 o dan olygiaeth 'Myrddin Fardd.' Ysgrifennodd rai emynau sy'n adnabyddus hyd heddiw. (Ar hynny gweler J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid*, 75.)

Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

Ffynonellau

W. O. Evans, 'Beirdd a Llenorion Lleyn,' yn *Cyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Gadeiriol Sarn Meillteyrn, Awst 1883* (Sarn 1884), 104-13

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *'Adgof uwch Anghof.' Llythyrau lluaws o Brif Enwogion Cymru* (1883), 19-20

Additional Manuscript in the British Museum 15030 (150)

Thomas Parry, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, XXVI, 52-71

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 21814399

Wikidata: Q18761948

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu